**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 12 Mawrth 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 27 Mawrth 2024 |

## PWNC

Eitem 6:CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2024-28

## PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a mabwysiadwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol er mwyn ei weithredu dros y pedair blynedd nesaf.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'n ddyletswydd drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010 Cymru i fudiad cyhoeddus greu Cynllun Cydraddoldeb Statudol bob pedair blynedd.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng diwedd Hydref a Chwefror 2024 a bu i'r ymatebion gael eu cynnwys fel atodiad i'r adroddiad.

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 12 Mawrth 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 27 Mawrth 2024 |

**PWNC**

Eitem 7:CYLLIDO PROSIECTAU Y CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR

**PENDERFYNIAD**

1) Cymeradwywyd i flaenoriaethu £1,640,495 o'r gronfa hinsawdd ar gyfer y prosiectau canlynol:
   a) Cynllun Fflyd Werdd - £1,048,400
   b) Cynllun Peilot Uwchraddio Goleuadau - £416,617
   c) Cynllun Pympiau Gwresogi - £175,478

2) Dirprwyo'r hawl i flaenoriaethu gwariant gweddill y gronfa cynllun hinsawdd i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd ac Aelodau'r Bwrdd Hinsawdd a Natur.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae angen i'r Cyngor flaenoriaethu'r gronfa hinsawdd er mwyn galluogi'r Cyngor i weithredu prosiectau a fydd yn arwain at leihad mewn allyriadau carbon a chyfrannu at ein nod o fod yn garbon sero erbyn 2030.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 12 Mawrth 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 27 Mawrth 2024 |

## PWNC

Eitem 8:BIDIAU UN TRO / CRONFA TRAWSFFURFIO 2024/25

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y bidiau un-tro o £6,508,260 ar gyfer 2024/25 sydd i'w gyllido o'r gronfa Trawsffurfio a'r gronfa Strategaeth Ariannol.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Nodwyd fod y bidiau am adnodd un tro yn cael eu cyflwyno mewn adroddiadau ar wahân i adroddiad y Gyllideb gan nad yw dyrannu adnodd un tro yn cael effaith ar osod cyllideb refeniw ac yn ystyriaeth wrth orfod pennu cyfradd y Dreth Cyngor. Cyflwynwyd yr adroddiad cyn dechrau'r flwyddyn ariannol fel bod modd gweithredu o 1 Ebrill 2024.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 12 Mawrth 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 27 Mawrth 2024 |

---

**PWNC**

Eitem 9:PRYNIANT SWYDDFEYDD Y GORON, PENRALLT, CAERNARFON

---

**PENDERFYNIAD**

Bu i'r Cabinet awdurdodi pryniant Swyddfeydd y Goron ym Mhenrallt, Caernarfon, ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Bu i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Gweithredu Tai ym mis Chwefror 2021. Mynegwyd fod y Cynllun Gweithredu Tai yn ymgorffori 33 o gynlluniau, gyda'r nod o sicrhau fod gan bobl Gwynedd fynediad i gartrefi addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd.

Eglurwyd y buasai awdurdodi pryniant safle Swyddfeydd y Goron yn galluogi'r Cyngor i ddatblygu un o gynlluniau'r Cynllun Gweithredu Tai.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---